



*Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all*

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate  
for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Y Gamfa Wen  
Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant  
Caerfyrddin  
Sir Gaerfyrddin  
SA31 3EP**

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2015**

**gan**

**Dorothy Morris  
Arolygydd Cofnodol**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwysu'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwysu'r cryfderau

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at [cyhoeddiadau@estyn.gov.uk](mailto:cyhoeddiadau@estyn.gov.uk)

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

[www.estyn.gov.uk](http://www.estyn.gov.uk)

**Ⓜ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2015: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 17/07/2015**

## Cyd-destun

Mae Meithrinfa Y Gamfa Wen wedi'i lleoli mewn adeilad penodedig ar gampws Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, Caerfyrddin. Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru i roi gofal dydd llawn i hyd at bum deg dau o blant o dan wyth oed ar unrhyw adeg. Ar hyn o bryd, mae wyth deg pump o blant wedi'u cofrestru yn y feithrinfa. Daw tua 47% ohonynt o gartrefi lle mae'r Gymraeg yn brif iaith. Mae ychydig o blant o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig.

Mae'r feithrinfa ar agor pum diwrnod yr wythnos rhwng wyth o'r gloch y bore a chwech o'r gloch yr hwyr. Yn ystod yr arolygiad, yr oedd un deg saith o blant yn y grŵp Cyfnod Sylfaen o ddwy a hanner i bump oed. Mae tri ohonynt yn cael addysg y blynyddoedd cynnar wedi'i hariannu. Nid oes plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn y grŵp.

Yn ychwanegol i'r rheolwraig, mae pum aelod o staff yn gweithio gyda'r grŵp Cyfnod Sylfaen. Maent yn brofiadol ac yn meddu ar gymwysterau addas ym maes addysg a gofal plant bach. Mae'r rheolwraig wedi bod yn ei swydd ers 2010.

Arolygwyd y feithrinfa ddiwethaf gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn Hydref 2014 a chan Estyn yn Hydref 2011.

## Crynodeb

<b>Perfformiad presennol y lleoliad</b>	<b>Da</b>
<b>Rhagolygon gwella'r lleoliad</b>	<b>Da</b>

### Perfformiad presennol

Mae'r lleoliad yn dda oherwydd:

- Mae'r ymarferwyr yn darparu ystod eang o brofiadau symbylol i'r plant
- Mae cyfleoedd da i'r plant ddefnyddio eu medrau llafar Cymraeg mewn sefyllfaoedd gwahanol
- Mae darpariaeth effeithiol ar gyfer datblygu medrau creadigol y plant
- Mae'r berthynas dda iawn rhwng y plant a'r ymarferwyr yn hybu eu hyder fel dysgwyr
- Mae gweithdrefnau adeiladol yn hybu ymddygiad o safon dda iawn
- Mae'r addysgu effeithiol yn sicrhau ymrwymiad gweithredol y plant yn eu dysgu
- Mae hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o bwysigrwydd gofalu am yr amgylchedd yn gryfder
- Mae'r lleoliad yn darparu amgylchedd hapus, gofalgar a chynhaliol i'r holl blant

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn dda oherwydd:

- Mae'r rheolwraig yn cynnig arweiniad cadarn i waith y lleoliad
- Mae'r ymarferwyr yn cyflawni eu rolau'n gydwybodol ac yn gweithio'n effeithiol fel tîm
- Mae gan yr arweinwyr ddisgwyliadau uchel sy'n cael eu hadlewyrchu yn eu hymrwymiad i addysg a datblygiad plant
- Mae gan yr ymarferwyr agweddau cadarnhaol tuag at ddatblygiad proffesiynol pellach
- Mae'r adroddiad hunan arfarnu yn adnabod meysydd priodol i'w datblygu
- Mae'r cynllun datblygu yn gosod blaenoriaethau addas yn cynnwys ymestyn medrau llythrennedd a rhifedd y plant
- Mae adnoddau yn cael eu defnyddio'n adeiladol i gefnogi'r dysgu
- Mae cysylltiadau cryf a chydweithio effeithiol gydag ystod o bartneriaethau yn cefnogi datblygiad a lles y plant

## Argymhellion

- A1 Cryfhau'r cynllunio i ddangos datblygiad medrau'r plant yn glir
- A2 Mireinio'r gweithdrefnau asesu ac ehangu'r defnydd o'r wybodaeth a gesglir i gynorthwyo'r cynllunio
- A3 Datblygu'r gweithdrefnau hunan arfarnu drwy roi mwy o sylw i agweddau ar y dysgu a'r addysgu

### **Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

### Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

### Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Da

#### Profiadau dysgu: Da

Mae'r cwricwlwm yn eang ac yn bodloni anghenion a diddordebau plant yn effeithiol ar y cyfan. Mae gweithgareddau yn cael eu trefnu o gwmpas cyfres o themâu sydd yn gweddu i ystod oed a lefel datblygiad y plant. Mae'r holl ymarferwyr yn cael eu cynnwys yn y sesiynau cynllunio sy'n sicrhau bod amcanion a threfniadaeth gweithgareddau yn glir i bawb. Mae cyfleoedd priodol i'r plant gyfrannu at y cynllunio drwy awgrymu gweithgareddau ychwanegol.

Mae defnydd addas o fframweithiau, sydd wedi'u cysylltu'n briodol â gofynion y Cyfnod Sylfaen, ar gyfer cynllunio'r ddarpariaeth. Mae'r fframweithiau yn gosod allan yr amcanion dysgu a'r gweithgareddau yn briodol. Ar adegau, fodd bynnag, nid yw'r cynllunio yn dangos datblygiad cynyddol ym medrau'r plant yn glir.

Mae darpariaeth effeithiol ar gyfer hyrwyddo medrau llythrennedd a rhifedd y plant. Cymraeg yw cyfrwng naturiol bywyd a gwaith y lleoliad. Yn ystod sesiynau grŵp, mae cyfleoedd gwerthfawr i'r plant wrando ar storïau, sgwrsio am eu gweithgareddau, ymuno mewn caneuon a rhigymau, a defnyddio eu medrau marcio. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o blant yn defnyddio eu medrau llythrennedd yn bwrpasol yn eu gweithgareddau. Er enghraifft, mae plant yn defnyddio eu medrau llafar Cymraeg yn hyderus i gyfathrebu a'i gilydd wrth chwarae yn y siop hufen iâ.

Mae cyfleoedd adeiladol i'r plant gyfrif a thrafod rhifau yn ystod amser cylch, gwaith grŵp ac yn eu chwarae. Er enghraifft, mae'r profiad o gyfrif a didoli sanau yn ôl patrwm a lliw yn darparu cyfleoedd effeithiol i'r plant ddefnyddio eu medrau meddwl a'u medrau rhif mewn sefyllfa ymarferol. Mae'r dasg o egluro beth sy'n debyg a beth sy'n wahanol yn eu geiriau eu hunain yn darparu her ychwanegol.

Mae profiadau cynhyrchiol yn hybu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu'r plant yn briodol, ac yn ymestyn eu medrau ymchwiliol a chorfforol. Mae ystod eang o brofiadau diddorol yn datblygu medrau creadigol y plant yn effeithiol. Maent yn cynnwys arbrofi gyda chyfryngau a deunyddiau gwahanol i greu collage, peintio, arlunio, argraffu, ac efelychu gwaith arlunydd adnabyddus.

Mae'r plant yn cael eu cyflwyno'n effeithiol i draddodiadau a dathliadau Cymru drwy weithgareddau megis dathlu Dydd Gŵyl Dewi a Dydd Santes Dwynwen. Mae defnydd priodol o ymweliadau ac o gyfraniad ymwelwyr i gefnogi'r dysgu. Er

enghraifft, mae'r ymweliadau â chapel, eglwys a thraeth lleol yn hybu ymwybyddiaeth y plant o rai o nodweddion eu hardal leol. Yn ogystal, mae ymweliadau pobl, megis gweinidog, dynion tân a'r postman, yn datblygu gwybodaeth y plant o rôl rhai pobl yn y gymuned.

### **Addysgu: Da**

Mae gan yr ymarferwyr wybodaeth sicr o ddatblygiad plant ac o ofynion y Cyfnod Sylfaen. Maent yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu sy'n ennyn diddordeb y plant ac yn sicrhau eu hymrwymiad gweithredol yn eu dysgu. Mae cydbwysedd addas rhwng gweithgareddau sy'n cael eu dewis gan y plant a gweithgareddau y mae ymarferwyr yn eu harwain.

Mae'r ymarferwyr yn creu amgylchedd dysgu hapus a chadarnhaol i'r plant. Maent yn ymyrryd yn sensitif yn chwarae'r plant er mwyn darparu cymorth a sicrhau cynnydd priodol. Er enghraifft, maent yn cyflwyno geirfa berthnasol yn gyson ac mae hyn yn cynorthwyo'r plant i siarad am eu profiadau yn hyderus. Mae cynllunio ar gyfer gweithgareddau a arweinir gan ymarferwyr yn rhoi ystyriaeth briodol i ystod anghenion dysgu'r plant. Ar adegau, fodd bynnag, mae'r cyflwyniadau i'r gweithgareddau hyn yn rhy hir.

Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda a defnyddiant weithdrefnau cynhwysfawr i asesu a chofnodi eu cynnydd. Maent yn arsylwi ar ymateb y plant ac yn cofnodi unrhyw ddatblygiadau arwyddocaol. Ar hyn o bryd, mae rhywfaint o ddyblygu yn y cofnodion a gedwir. Mae'r ymarferwyr yn gwneud defnydd priodol o'r wybodaeth a gesglir i gynorthwyo'r cynllunio mewn agweddau ar y ddarpariaeth ond nid yw'r drefn wedi'i sefydlu'n llwyr. Mae medrau hunan asesu cychwynnol y plant yn cael eu datblygu'n addas trwy'r cyfleoedd dyddiol iddynt fynegi barn yn syml am y gweithgareddau y maent yn hoffi.

Mae rhieni yn cael eu hysbysu'n effeithiol am gyflawniadau a chynnydd eu plant trwy drafodaethau cyson a thrwy adroddiadau ysgrifenedig manwl. Mae'r casgliad o luniau'r plant wrth eu gwaith yn gofnod diddorol o'u profiadau yn y lleoliad.

### **Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae ethos teuluol yn bodoli yn y lleoliad ac mae'r ymarferwyr yn ofalgar a chynhaliol o'r holl blant. Mae ystod o bolisïau ac arferion dyddiol priodol yn hyrwyddo iechyd a lles plant yn effeithiol. Mae cyfleoedd buddiol i godi ymwybyddiaeth plant o bwysigrwydd bwyta'n iach ac ymarfer y corff. Mae bod yn rhan o Gynllun Gwên a Chynllun Cyn-ysgol iach, er enghraifft, yn cynorthwyo'r ymarferwyr i hyrwyddo ymwybyddiaeth plant o arferion da wrth ofalu am eu hiechyd.

Mae profiadau o safon uchel yn llwyddo i ddatblygu ymwybyddiaeth plant o bwysigrwydd gofalu am yr amgylchedd a phob peth byw. Maent yn cynnwys ymweliadau â'r ysgol goedwig gyfagos i archwilio nodweddion y byd naturiol o'u cwmpas mewn amgylchedd diogel a chyffrous.

Caiff y plant eu hannog i ymwneud ag ystod eang o weithgareddau ailgylchu. Mae'r profiad o gasglu sbwriel o amgylch y lleoliad, ei ddosbarthu i sachau ail gylchu a

sachau gwastraff ac ymweld â safle ailgylchu yn hybu dealltwriaeth y plant o'r broses yn effeithiol. Mae'r lleoliad yn ymwybodol iawn o bwysigrwydd gweithredu'n gynaliadwy ac wedi ennill Baner Werdd Eco-Sgolion am yr ail dro.

Mae'r ymarferwyr yn cydweithio'n dda i hybu gwerthoedd pwysig megis bod yn garedig, rhannu a pharchu eraill. O ganlyniad, mae'r holl blant yn ymddwyn yn dda iawn. Caiff y plant eu hannog i rannu eu teimladau megis beth sy'n eu gwneud yn hapus neu yn drist. Mae'r ymarferwyr yn ymateb yn sensitif i sylwadau'r plant. Mae'r pwyslais da ar ofalu am yr amgylchedd a phob peth byw, dathliadau Nadolig ac adrodd gweddi cyn byrbryd yn cyfrannu'n briodol at ddatblygiad ysbrydol y plant. Mae sylw da i ymestyn eu hymwybyddiaeth o'r angen i helpu pobl eraill trwy, er enghraifft, gasglu arian at achosion da.

Mae cyfleoedd priodol i'r plant ddysgu am ddiwylliannau a thraddodiadau eraill. Maent yn cynnwys dathlu'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd, Dydd Sant Padrig a gŵyl Divali drwy ystod o brofiadau addas yn cynnwys gweithgareddau celf a chrefft.

Mae polisi a gweithdrefnau addas ar gyfer ymateb i anghenion dysgu ychwanegol y plant.

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

### **Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos y lleoliad yn creu awyrgylch croesawgar a hapus i'r holl blant. Mae'n gymuned gynhwysol lle caiff pob plentyn fynediad cyfartal i'r holl brofiadau dysgu. Mae'r ymarferwyr yn ystyried ac yn gwerthfawrogi cefndiroedd amrywiol y plant ac yn gweithredu'n briodol yn unol â'r wybodaeth hon.

Mae nifer briodol o ymarferwyr profiadol i fodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen. At ei gilydd, mae digon o adnoddau addas ar draws y meysydd dysgu. Maent o fewn cyrraedd y plant sy'n hyrwyddo dysgu annibynnol yn effeithiol.

Mae'r adeilad yn cynnig cyfleusterau o ansawdd da iawn. Mae defnydd effeithiol o'r gofod dysgu sydd ar gael trwy drefnu ardaloedd gweithgareddau o amgylch yr ystafell. Mae'r ardal awyr agored yn darparu amgylchedd diddorol ac amrywiol i'r plant ddatblygu a defnyddio eu medrau mewn ystod o weithgareddau. Mae'r adeilad a'r safle yn lân a diogel.

<b>Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?</b>
--

<b>Da</b>
-----------

### **Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r rheolwraig yn darparu arweiniad cadarn i waith y lleoliad. Mae wedi sefydlu perthynas waith adeiladol gyda'r dirprwy reolwraig sydd â chyfrifoldeb cydlynu'r Cyfnod Sylfaen yn y lleoliad. Maent yn rhannu amcanion a gwerthoedd eglur sy'n cael eu hadlewyrchu'n llwyddiannus yn ethos a gwaith y lleoliad. Mae'r holl ymarferwyr yn deall eu cyfrifoldebau ac yn gweithio'n effeithiol fel tîm. Mae hyn yn



sicrhau amgylchedd trefnus a phwrpasol i'r plant. Caiff polisïau a gweithdrefnau priodol eu rhoi ar waith yn ofalus.

Mae cydweithio llwyddiannus rhwng y rheolwraig a staff y Brifysgol ar ystod o faterion yn ymwneud â rheolaeth y lleoliad. Er enghraifft, mae staff y Brifysgol yn cynnig arweiniad gwerthfawr ar faterion ariannol a gofynion statudol. Mae'r person cofrestredig yn rhoi cymorth adeiladol ar bolisïau, ac yn cyfrannu at brosesau penodi staff a gweithdrefnau rheoli perfformiad. Mae system addas i werthuso gwaith yr ymarferwyr ac i adnabod anghenion datblygiad proffesiynol pellach.

Mae'r lleoliad yn rhoi ystyriaeth addas i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol, gan gynnwys gweithredu'r Cyfnod Sylfaen, hybu medrau iaith Cymraeg y plant a hyrwyddo bwyta'n iach.

### **Gwella ansawdd: Da**

Mae gan y rheolwraig ddealltwriaeth sicr o gryfderau'r lleoliad ac o'r prif feysydd i'w gwella. Mae hyn yn seiliedig ar gyfarfodydd staff, arsylwadau o'r ddarpariaeth, a sesiynau trafod gydag ymarferwyr unigol i ddarparu arweiniad pellach. Er hyn, mae ystyriaeth fwy manwl i agweddau ar yr addysgu a'r dysgu yn elfen sydd heb ddatblygu'n llawn.

Mae'r adroddiad hunan arfarnu yn cynnig adolygiad priodol o'r ddarpariaeth. Mae nifer o'r agweddau sydd wedi eu nodi ar gyfer gwelliant wedi'u cynnwys yn glir yn y cynllun datblygu. Maent yn cynnwys ymestyn medrau llythrennedd a rhifedd y plant ymhellach. Mae'r cynllun, sy'n cynnwys amserlen ac yn gosod cyfrifoldebau, yn cael ei weithredu'n briodol.

Mae'r ymarferwyr yn ymateb yn gadarnhaol i gyngor allanol. Mae cydweithio cynhyrchiol gydag athrawes gyswilt yr awdurdod addysg yn darparu cyfleoedd priodol i arfarnu a datblygu agweddau ar y ddarpariaeth. Mae'r newidiadau i'r drefn gynllunio yn enghraifft o hyn. Mae gweithrediad polisïau a chanllawiau newydd yn cael eu trafod yn gynhyrchiol gyda swyddog Mudiad Meithrin.

Mae'r arweinydd yn ceisio barn rhieni'n briodol trwy drafodaethau a thrwy holiaduron. Mae'r arfer o ofyn barn plant am agweddau ar y ddarpariaeth yn rhoi cyfle iddynt gyfrannu at y trefniadau hunan arfarnu. Mae'r defnydd adeiladol o'r cyfathrebu gyda staff y Brifysgol ac o'r cyngor a ddarperir yn cyfrannu'n bwrpasol at ddatblygiad y lleoliad.

### **Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r lleoliad yn cyd-weithio'n gynhyrchiol gydag ystod o bartneriaid sydd yn cyfrannu'n effeithiol at ansawdd y ddarpariaeth a lles plant. Caiff nodau ac amcanion y lleoliad eu rhannu gyda'r partneriaid.

Mae perthynas gadarn wedi'i sefydlu gyda'r rhieni a chadarnhawyd hyn yn ystod yr arolygiad. Nodwyd lefel uchel o foddhad gyda'r cynnydd y mae'r plant yn ei wneud tra yn y lleoliad. Caiff rhieni eu hysbysu'n rheolaidd am bob agwedd ar waith y

Ileoliad drwy sgysiau dyddiol, yr hysbysfwrdd, posterï a chylchlythyron. Mae ymarferwyr ar gael yn rheolaidd i drafod ar ddechrau a diwedd y dydd.

Mae'r cysylltiadau cryf gyda'r Brifysgol yn cynnig cyfleoedd da i'r ymarferwyr a'r plant ddefnyddio adnoddau a chyfleusterau pwrpasol. Mae'r cysylltiadau cadarnhaol gyda'r ysgol gynradd sy'n derbyn plant o'r lleoliad yn hyrwyddo trosglwyddiad esmwyth iddynt i gam nesaf eu haddysg. Mae'r trefniadau pontio yn cynnwys ymweliadau gan y plant a thrafodaethau rhwng y staff.

Mae'r cysylltiadau gyda'r gymuned drwy ymweliadau a chyfraniad ymwelwyr yn cyfoethogi dysgu'r plant. Yn ychwanegol, mae aelodau o'r gymuned ehangach yn cefnogi'r lleoliad, er enghraifft, drwy gefnogi gweithgareddau codi arian.

### **Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r rheolwraig yn sicrhau lefel briodol o staffio i gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen ac i ddarparu ar gyfer lles a datblygiad plant. Ar y cyfan, mae defnydd pwrpasol o adnoddau i gefnogi'r dysgu a'r addysgu. Mae adeilad a thir y lleoliad yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda. Mae'r ymarferwyr yn llwyddo i greu amgylchedd deniadol a lliwgar i'r plant.

Mae'r ymarferwyr yn derbyn hyfforddiant addas ar ofynion y Cyfnod Sylfaen ac ar agweddau ar ddatblygiad a gofal plant o dan arweiniad yr awdurdod lleol ac Ysgol Plentynod Cynnar y Brifysgol. Caiff yr hyfforddiant effaith adeiladol ar agweddau megis hybu medrau iaith a datblygiad creadigol y plant.

Mae'r rheolwraig yn trefnu ymweliadau cynhyrchiol â lleoliadau eraill i rannu profiadau ac arsylwi arfer dda. Mae'r ymarferwyr yn gwneud defnydd pwrpasol o gyfleoedd hyfforddiant i ennill cymwysterau pellach yn addysg y blynyddoedd cynnar.

Mae gan y rheolwraig ddealltwriaeth glir o ofynion cyllid ac mae'n rheoli gwariant yn ofalus yn unol â blaenoriaethau'r lleoliad.

O ystyried ansawdd yr arweinyddiaeth, y profiadau dysgu, a'r gofal a chymorth i blant, mae'r lleoliad yn cynnig gwerth da am arian.

## **Atodiad 1**

### **Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

#### **Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Derbyniwyd llai na 10 ymateb. Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 2

### Yr arolygydd cofnodol –

Dorothy Morris	Arolygydd Cofnodol
----------------	--------------------

### Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn ([www.estyn.gov.uk](http://www.estyn.gov.uk))

## Rhestr termau

<b>AGGCC</b>	Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru.
<b>Athro ymgynghorol awdurdod lleol</b>	Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed.
<b>Y Cyfnod Sylfaen</b>	Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed
<b>Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)</b>	Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned.
<b>Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)</b>	Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau.
<b>Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)</b>	Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref.
<b>Meysydd Dysgu</b>	Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn: <ul style="list-style-type: none"> <li>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol</li> <li>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu</li> <li>• datblygiad mathemategol</li> <li>• datblygu'r Gymraeg</li> <li>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd</li> <li>• datblygiad corfforol</li> <li>• datblygiad creadigol</li> </ul>
<b>Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)</b>	Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth.

<b>Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)</b>	Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012.
<b>Mudiad Meithrin</b>	Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg.